



Disgrifiad Estynedig:

Mae Cronfa Ragoriaeth Conwy'n darparu arian i unigolion sy'n byw yng Nghonwy sydd â thalent ym maes chwaraeon, addysg a'r celfyddydau. Nod y cynllun yw helpu unigolion i gyflawni eu potensial drwy hyfforddiant a datblygiad. Mae'r grantiau ar gael i gampwyr sy'n cystadlu ar lefel cenedlaethol ac angen arian tuag at gostau hyfforddi. Gall artistiaid (DAWSWYR, ACTORION, CERDDORION A'R CELFYDDYDAU GWELEDOL) dderbyn arian i'w helpu i ddatblygu eu talentau drwy weithdai, CYRSIAU a dysgu. Gellir defnyddio'r grantiau ar gyfer costau hyfforddi a dysgu, offer a theithio.

Meini prawf allweddol

Rhaid i ymgeiswyr cymwys fod:

- Yn breswylwyr llawn amser yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac wedi byw yng Nghonwy ers o leiaf pum mlynedd a gallu cefnogi'r cais gyda'u rhif etholiadol (o dan 18 wedi'u heithrio)
- Ni dderbynnir ceisiadau gan fyfyrwyr sy'n byw'n BARHAOL y tu allan i'r Sir
- gyda thalent ym maes chwaraeon, addysg neu'r celfyddydau

Gwybodaeth atodol

- Rhaid i gampwyr talentog gystadlu ar lefel cenedlaethol (aelod cyfredol o sgwad cenedlaethol Corff Llywodraethol y Gamp) neu uwch mewn camp wedi'i chydabod gan Gyngor Chwaraeon Cymru gweler rhestr gymhwysu Cyngor Chwaraeon Cymru.
- Rhaid i unigolion talentog ym maes y celfyddydau neu addysg allu dangos eu bod yn gwneud gwaith o safon uchel
- Ni ellir defnyddio grantiau ar gyfer; ffioedd cyrsiau addysg bellach neu uwch llawn-amser neu ran-amser; adnoddau dysgu sylfaenol sy'n cael eu cysylltu fel arfer gyda chwrs penodol; profiadau dysgu sydd ar gael yn nes at gartref; caledwedd neu feddalwedd TG; profiad gwasanaeth gwirfoddol; trefniadau i fynd i gyfweiliadau.
- Ers lansio'r gronfa, mae gwerth tua £250,000 o grantiau wedi'u dyfarnu i dros 300 o unigolion.

Gwerth isaf: £100

Gwerth uchaf: £800

Y Broses Ymgeisio:

- Gellir lawr lwytho ffurflen gais o www.conwy.gov.uk drwy chwilio Cronfa Ragoriaeth Conwy. I dderbyn ffurflen gais drwy'r post, ffoniwch 01492 575564 am wybodaeth bellach
- Dim ond un ymgeisydd fesul cyfnod ariannol
- Dylai'r ceisiadau gynnwys llythyr cefnogi gan ysgol neu diwtor coleg yr ymgeisydd, TIWTOR celf NEU ARWEINYDD clwb. Ar gyfer ceisiadau chwaraeon, mae'n rhaid i ymgeiswyr gyflwyno llythyr cefnogi gan Gorff Llywodraethol Cenedlaethol y Gamp.
- Mae'n rhaid i ymgeiswyr sicrhau bod ceisiadau'n cael eu cwblhau'n llawn gyda'r holl ddogfennau cefnogol perthnasol ynghlwm e.e. llythyr cefnogi.
- Ni fydd ceisiadau heb yr holl dystiolaeth gefnogol yn cael eu hystyried a byddant yn cael eu dychwelyd heb eu hasesu.
- Ni ystyrir unrhyw geisiadau a wneir ar ôl y dyddiad cau.
- Dylai ceisiadau hefyd gynnwys unrhyw wybodaeth gefndir fydd yn helpu'r cais.
- Gellir ond cyflwyno ceisiadau ar yr adegau a nodwyd isod a byddant yn cael eu hasesu yn ystod y cyfnod 6 wythnos hwnnw'n unig. Os na fydd y cais yn cyrraedd y swyddfa erbyn 5pm ar y dyddiad cau, bydd yn cael ei dychwelyd i'r ymgeisydd i'w ail-gyflwyno yn ystod sesiwn nesaf y ceisiadau.

Bydd pob ymgeisydd llwyddiannus yn cael ei enwebu ar gyfer Gwobrau Chwaraeon Conwy ac yn cael eu cynnwys yn y categori chwaraewyr/wragedd iau/uwch neu gategori